**Cyf: HSS-16-00(p.1)**

| |
|---|
| **Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Dyddiad: 14 Medi 2000** |
| **Teitl: Adroddiad Misol gan yr Ysgrifennydd Cynulliad** |

**CYNNWYS**


| **RHAN 1 – MATERION STRATEGAETH** | **Rhifau'r Paragraffau** |
|---|---|
| **GWEITHIO DI-FWLCH/ RHOI POBL YN GYNTAF** | - |
| Cynllun Cenedlaethol yr NHS yn Lloegr | |
| 'Mewn Dwylo Diogel' Canllawiau ar Ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed yng Nghymru – Medi 2000 | 1-7 |
| Tasglu Pwysau Argyfwng | |
| | 8-11 |
| | 12-13 |
| **GWELLA IECHYD A THRECHU ANGHYDRADDOLDEB** | - |
| Ymgyrch Atal Cenhedlu Brys | |
| Asesu'r effaith ar iechyd | 14-16 |
| **STRATEGAETH YR NHS** | 17 |
| Adroddiad ar Ddatblygu Gwasanaethau Aciwt [Mynediad a Rhagoriaeth] | |
| | 18 |

**DULL NEWYDD O WEITHREDU GOFAL SYLFAENOL** -

Strategaeth Gofal Sylfaenol

Grp Gorchwyl a Gorffen ar Arferion Presgripsiynu 19-20

Grp Llywio ar Bresgripsiynu gan Nyrsys 21

22

**RHEOLEIDDIO AC AROLYGU ANSAWDD**

Arolygu Plant mewn Angen sy'n byw gartref yng Nghaerdydd 23-25

Adroddiad ar yr Adolygiad ar y Cyd o Rondda Cynon Tâf 26

Penderfyniad Ymwybodol – adolygiad o ddefnyddio anesthesia cyffredinol a dulliau tawelyddu ymwybodol ym maes gofal deintyddol sylfaenol 27-30

Adolygiad o'r Ddeddf Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd

Ymgynghori ar y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth arfaethedig newydd ar gyfer y DU.

31-32

Corff newydd i ddisodli Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd

33

**GWASANAETHAU I BLANT** -

Adolygiad o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Plant a Phobl yn eu Harddegau yng Nghymru : Mecanweithiau Diogelwch a Safonau Gofal 34-35

Deddf Safonau Gofal

Deddf Cynhalwyr a Phlant Anabl 2000 36-40

Cynllun Gweithredu Strategaeth y Cynhalwyr yng Nghymru 41-42

43-45

**DATBLYGIADAU CLINIGOL AC O RAN GWASANAETHAU**

**Gan gynnwys:**

**GWASANAETHAU CANSER** -

Ehangu Rhaglen yr NHS ar gyfer Sgrinio'r Fron

Cyhoeddi Arian Ychwanegol ar gyfer Canser 46-47

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol 48-50

51-57

**FFRAMWAITH Y GWASANAETH IECHYD AR GLEFYD CORONAIDD Y GALON** -

Gwaith ar y Gweill

Cyhoeddi Arian Ychwanegol ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon 58-61

62-63

**CYNNAL A DATBLYGU GALLU'R SECTOR GWIRFODDOL** -

Cynllun y Sector Gwirfoddol

Adolygiad o'r Gwasanaethau Mabwysiadu

64

65

**CYLLIDO**

Diweddariad ar y Sefyllfa Ariannol

Cynllun Hyfforddi Meddygon Teulu – Hyfforddiant Galwedigaethol ar gyfer Meddygon Teulu 66-68

69

## RHAN 2 – MATERION O DDIDDORDEB

### GWEITHIO DI-FWLCH/RHOI POBL YN GYNTAF

### Cynllun Cenedlaethol yr NHS yn Lloegr

1. Ar ddiwedd y sesiwn diwethaf, cyflwynais ddatganiad i'r cyfarfod llawn, sef "*Dyfodol Iachach i Gymru*", a oedd yn gosod yn ei gyd-destun yr hyn yr oeddem eisoes wedi'i gyflawni ac yn edrych ymlaen at y gwelliannau a'r buddsoddiadau ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol y byddwn yn eu gwneud yn y flwyddyn sydd i ddod a thu hwnt. Yn yr wythnosau ers hynny, mae symud ymlaen wedi bod mewn nifer o feysydd, megis cyhoeddi adroddiad y Tasglu Pwysau Argyfwng, ond byddaf yn dychwelyd at y testun hwnnw'n ddiweddarach yn yr Adroddiad hwn.

2. Ddiwedd mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog Gynllun yr NHS ar gyfer Lloegr, sy'n rhaglen bellgyrhaeddol o ddiwygiadau i ehangu a moderneiddio'r NHS yn Lloegr ac i gyflwyno gwasanaethau gwell sydd wedi'u cynllunio gyda'r cleifion mewn golwg. Mae'r cynllun yn cynnig cyfres o newidiadau sylweddol ac arloesol ar gyfer yr NHS a ategir gan ymrwymiad clir i'r egwyddorion sylfaenol, sef bod yr NHS am ddim yn y man lle y'i defnyddir, ei fod yn darparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau sy'n glinigol effeithiol a'i fod yn cael ei ariannu yn bennaf o drethi cyffredin. Mae nifer o themâu yn y cynllun sy'n adlewyrchu amcanion sydd eisoes wedi'u sefydlu yng Nghymru, megis gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chanser, clefyd y galon, iechyd meddwl a gwasanaethau i blant. Hefyd, mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar wneud y cleifion yn ganolbwynt y gwasanaethau, sef thema a bwysleisiais yn *Dyfodol Iachach i Gymru*, ac ar roi grym i'r cyhoedd, sef maes arall lle y mae'r Cynulliad yn gwneud camau da ymlaen.

3. Bydd agweddau o'r Cynllun yn berthnasol yn awtomatig i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i rai cyrff yng Nghymru a Lloegr, contractau a chyflogau'r ymgynghorwyr, y gofynion sydd ar feddygon teulu, newidiadau i rôlau (megis presgripsiynu gan nyrsys) a chynnydd yn yr arfarniadau a wneir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol. Byddwn am i'r rhain adlewyrchu ein hamgylchiadau a'n blaenoriaethau. Mae agweddau eraill o'r Cynllun, er enghraifft argymhellion ar gyfer cofnodion electronig am y cleifion a newidiadau i gontractau'r meddygon teulu, lle y gallai fod yn anodd dilyn trywydd gwahanol. Trafodir mewn

eitem ddiweddarach o’r agenda oblygiadau’r cynigion yng nghyd-destun gofalu am yr henoed yn y tymor hir.

4. Mae syniadau yn y Cynllun a allai gyfrannu at ein dull o weithredu yng Nghymru neu efallai y gellid eu haddasu at amgylchiadau penodol yng Nghymru. Gwneir llawer o waith i ddadansoddi’r cynigion ac i chwilio am yr hyn a allai fod yn fanteisiol i Gymru ac o fewn ein gallu ariannol. Rwyf yn rhoi copi o’r dadansoddiad cychwynnol ar y fewnrwyd heddiw ac edrychaf ymlaen at glywed safbwyntiau’r Pwyllgor ar yr ystod eang o gynigion sydd yn y cynllun. Yn y tymor hirach, bydd strategaeth yr NHS ar gyfer Cymru, sy’n cynnwys Strategaeth Gofal Sylfaenol, yn cymryd y Cynllun i ystyriaeth yn llawn wrth lunio dull o weithredu sy’n iawn i ni.

5. Mae’r Cynllun yn amlinellu fframwaith polisi pwysig ar gyfer yr NHS, a pha beth bynnag y dewisiwn ar gyfer Cymru, rhaid sicrhau fod y gwasanaeth y mae’r cleifion yn ei dderbyn yma ymhlith y goreuon. Mae rôl bwysig yma i’r Pwyllgor a byddaf yn ceisio dod i gytundeb ag awgrymiadau’r pleidiau gwleidyddol ynghylch y modd gorau o drafod y syniadau sydd yn y Cynllun sy’n berthnasol i Gymru a’u symud ymlaen.

6. Hoffwn ymgynghori’n eang i gael clywed gan y cleifion a’r cyhoedd, ynghyd â sefydliadau eraill, pa fath o gysylltiad â’r cleifion/gwasanaethau gwarchod yr hoffent eu gweld yn cael eu darparu yng Nghymru. Mae’r gweithgor arfaethedig ar rôlau a chyfrifoldebau’r Cynghorau Iechyd Cymuned, ynghyd â’r prosiect rhwng y Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus a’r Cynghorau Iechyd Cymuned sy’n cael cyfraniad gan y cyhoedd, yn rhoi cyfle rhagorol i ddatblygu a chwilio am opsiynau ar gyfer cyflwyno eiriolaeth a chymorth i gleifion yng Nghymru. Rwyf wedi gofyn i’m swyddogion drafod dulliau o fwrw ymlaen â hyn gyda Chymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru a bwriadaf gydweithio’n agos â hwy gydol y broses hon.

7. Unwaith y byddaf wedi derbyn yr opsiynau hyn, bwriadaf gomisiynu sefydliad annibynnol i gynnal ymarferiad ymgynghori sy’n drylwyr ac yn glir i geisio barn y cleifion/cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill ar y ffordd orau i symud ymlaen. Dim ond ar ôl cyflwyno canlyniadau’r ymarferiad ymgynghori gerbron y Cynulliad y bydd penderfyniadau’n cael eu gwneud ynghylch dyfodol gwasanaethau eiriolaeth/cymorth i gleifion a’r Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru.

**‘Mewn Dwylo Diogel’ : Canllawiau ar Ddiogelu Oedolion sy’n Agored i Niwed yng Nghymru – Medi 2000**

8. Ar 19 Medi, byddaf yn mynychu achlysur lansio "Mewn Dwylo Diogel", canllawiau ar ddiogelu oedolion sy’n agored i niwed yng Nghymru. Datblygwyd y canllawiau hyn gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn dilyn cyngor gan grp yngynghori sy’n cwmpasu sawl asiantaeth. Ei nod yw darparu fframwaith cyson ledled Cymru a fydd yn hwyluso arferion da ar draws a rhwng asiantaethau i atal, clustnodi a mynd i’r afael â’r broblem

o gam-drin oedolion sy’n agored i niwed.

9. Er mwyn atgyfnerthu’r angen am gydweithredu rhwng asiantaethau, llofnodwyd y rhagair i "Mewn Dwylo Diogel" ar y cyd rhyngof fi a Charles Clark, y Gweinidog yn y Swyddfa Gartref.

10. O dan Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol 1970, bydd yn ofynnol i’r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol gyflenwi rôl gydlynol wrth ddatblygu polisïau a threfniadau lleol.

11. Bydd Aelodau’r Cynulliad yn dwyn i gof y dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori iddynt ym misoedd olaf y llynedd a byddant yn cael copïau o’r fersiwn derfynol hon er gwybodaeth. Ers dosbarthu’r ddogfen ymgynghori, mae llawer o’r awdurdodau wedi dechrau datblygu canllawiau lleol o ran polisïau ac arferion, mae rhai meysydd eisoes yn dod yn eu blaenau’n dda ac mae tystiolaeth eu bod yn fodlon rhannu eu profiadau â’r rheini sy’n llai datblygedig. Bydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn monitro’r gweithredu a bydd yn cynnig cymorth i awdurdodau drwy raglen ddatblygu’r Arolygiaeth honno.

**Tasglu Pwysau Argyfwng**

12. Yn dilyn Adroddiad y Tasglu i’r Pwyllgor ym mis Gorffennaf, lansiwyd y Canllawiau ar Gynllunio Pwysau Argyfwng ar 3 Awst.

13. Dosbarthwyd y canllawiau’n eang gyda bron 6,000 o gopïau’n cael eu dosbarthu i’r NHS, llywodraeth leol a’r sector gwirfoddol. Mae’r canllawiau’n amlinellu rôlau a chyfrifoldebau pob sefydliad a’r cyfraniad a ddisgwylir ganddynt. Mae’n pwysleisio pwysigrwydd cydweithio ac mae’n rhoi manylion am yr ymgyrch "Cadwch yn Iach y Gaeaf yma" a fydd yn cychwyn ym mis Hydref.

**GWELLA IECHYD A THRECHU ANGHYDRADDOLDEB**

**Ymgyrch Atal Cenhedlu Brys**

14. Mae Cynlluniau yn mynd yn eu blaenau i ail-ddosbarthu levonorgestrel 750 microgram o fod yn Feddyginiaeth ar Bresgripsiwn yn Unig i fod yn Feddyginiaeth Fferyllol ac mae disgwyl y bydd y cynnyrch ar werth drwy fferyllfeydd erbyn diwedd y flwyddyn.

15. Mae’r posibilrwydd o ddefnyddio Cyfarwyddiadau Grwpiau Cleifion mewn fferyllfeydd hefyd yn cael eu trafod er mwyn galluogi darparu’r cynnyrch ar yr NHS. Daeth y rhain i rym ar 9 Awst a byddent yn galluogi darparu’r cynnyrch, sut bynnag y’i dosberthir h.y. gellid defnyddio’r dull hwn hyd yn oed os byddai’r cynnyrch yn aros yn Feddyginiaeth ar Bresgripsiwn yn Unig a byddai’n cael gwared ar yr elfen o anfantais gymdeithasol gan y byddai ar yr NHS (ond, am bris!).

16. Bydd y ddau gynnig hwn yn cael effaith ar gyflwyno Strategaeth Iechyd Rhywiol y Cynulliad o ran atal cenhedlu brys.

**Asesu'r effaith ar Iechyd**

17. Mae'n bleser gennyf adrodd fod asesiad wedi'i gwblhau ar effaith y Rhaglen Amcan 1 ar iechyd ac mae adroddiad wrthi'n cael ei ddosbarthu. Rwyf wedi trefnu bod copïau personol yn cael eu hanfon at Aelodau'r Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn arwyddocaol am ddau reswm. Yn gyntaf, mae'n dangos ein hymrwymiad i wneud asesiadau o'r effaith ar iechyd yn berthnasol i'n polisïau a'n rhaglenni. Yn ail, ac yn bwysicach efallai, mae'r adroddiad yn amlinellu potensial Amcan 1 o ran iechyd drwy glustnodi'r cysylltiadau rhwng y mesurau yn y Rhaglen a'r ffactorau sy'n cael effaith ar iechyd. Gan ddefnyddio'r asesiad fel sylfaen, mae canllawiau'n cael eu datblygu i godi ymwybyddiaeth o berthnasedd y Rhaglen i iechyd a lles yr unigolyn. Bydd y canllawiau hyn yn galluogi'r sefydliadau sy'n cynnig am arian Amcan 1 i fedru ystyried iechyd yn rhan integredig o'u cynigion.

**STRATEGAETH YR NHS**

**Adroddiad ar Ddatblygu Gwasanaethau Aciwt [Mynediad a Rhagoriaeth]**

18. Mae'r adroddiad ar Fynediad a Rhagoriaeth yn cael ei argraffu ar hyn o bryd. Dechreuir ymgynghori ar yr adroddiad ddechrau mis Medi. Byddaf yn anfon copi o'r adroddiad at Aelodau'r Cynulliad yn fuan ynghyd â llythyr a fydd yn gwahodd eu sylwadau.

**DULL NEWYDD O WEITHREDU GOFAL SYLFAENOL**

**Strategaeth Gofal Sylfaenol**

19. Mae'n dda gennyf adrodd fod y gwaith ar Strategaeth Gofal Sylfaenol yn awr ar y gweill. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Grp Cyfeirio Strategaeth Gofal Sylfaenol ar 18 Gorffennaf o dan gadeiryddiaeth yr Athro Nigel Stott.

20. Mae gwaith ar y strategaeth wedi symud ymlaen yn gyflym ers cyfarfod agoriadol y Grp Cyfeirio. Cynhelir cyfarfodydd unigol ar hyn o bryd gyda rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru a threfnwyd cyfres o weithdai cenedlaethol i Gymru ar gyfer pobl broffesiynol ym maes Gofal Sylfaenol o ganol mis Medi tan ganol mis Hydref. Hefyd, trefnwyd pum gweithdy ehangach yn y gymuned iechyd ym mhob ardal awdurdod iechyd tua diwedd y cyfnod hwn. Bydd y rhain yn ystyried y modelau a'r themâu sy'n deillio o hyn ac yn eu profi. Llunnir y rhain o amryw o ffynonellau gan gynnwys gwaith strategol a dadansoddol sy'n digwydd dros yr haf, adolygiad o'r llenyddiaeth sy'n gysylltiedig â gofal sylfaenol, ac o drafod ac o ymdrin â phobl broffesiynol ym maes gofal sylfaenol ac â'r gymuned iechyd ehangach drwy weithdai a chyfarfodydd

unigol.

**Grp Gorchwyl a Gorffen ar Arferion Presgripsiynu**

21. Dosbarthwyd dogfen ymgynghori'r Grp i'r gwasanaeth yng Nghymru ddiwedd mis Gorffennaf. Mae'n amlinellu gwaith y grp a'r argymhellion a ystyriwyd hyd yn hyn ac mae'n gwahodd sylwadau erbyn *4 Medi* i'w hystyried gan y grp cyn iddynt ryddhau eu hadroddiadau terfynol yn yr hydref. Mae'r ddogfen ar gael ar Cymru Web ac ar safleoedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y rhyngrwyd a'r fewnrwyd. Gellir cael hyd i'r ddogfen ar y rhyngrwyd.

**Grp Llywio ar Bresgripsiynu gan Nyrsys**

22. Mae nyrsys i fod i ddechrau presgripsiynu yng Nghymru ddiwedd mis Medi 2000. Lluniwyd y pecyn dysgu agored a chynnwys y cyrsiau gan Is-Grp Fforwm Addysg y Grp Llywio ar Bresgripsiynu gan Nyrsys ac mae'n disgwyl cael ei gymeradwyo'n derfynol yng nghyfarfod Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd ym mis Medi.

**RHEOLEIDDIO AC AROLYGU ANSAWDD**

**Arolygu plant mewn angen sy'n byw gartref yng Nghaerdydd**

23. Darganfu Arolygwyr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol "ddarlun anghyson" o wasanaethau ar gyfer plant mewn angen yn Ninas a Sir Caerdydd. Daeth yr arolygiad, a wnaed ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 1999, o hyd i ystod da o wasanaethau a rhai ar ffurf mentrau sy'n llawn dychymyg, ond golygai'r diffyg safonau a disgwyliadau cyffredin a chlir y gallai teuluoedd mewn rhannau gwahanol o'r ddinas dderbyn ymatebion gwahanol iawn. Bu'r ad-drefnu a'r newidiadau yn yr uwch reolwyr yn rhwystr i reoli a datblygu gwasanaethau.

24. Mae'r adroddiad yn gwneud deuddeg argymhelliad i wella dulliau rheoli ac arferion. Mae'r Cyngor wedi paratoi cynllun gweithredu i roi'r argymhellion ar waith a bydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn monitro'r modd y'u gweithredir.

25. Rwyf yn bryderus ynghylch y problemau sydd gan y gwasanaethau i blant yng Nghaerdydd a byddaf yn trafod hyn â'r Arweinydd.

**Adroddiad ar yr Adolygiad ar y cyd o Rondda Cynon Taf**

26. Cyhoeddwyd adroddiad ar y cyd i adolygu gwasanaethau cymdeithasol Rhondda Cynon Taf ddiwedd mis Mehefin. Dangosodd rai nodweddion da iawn, ond rhai methiannau sylweddol yn ogystal. Rwyf yn cyfarfod ag arweinwyr y Cyngor yn fuan i drafod sut mae datrys y rhain.

**Penderfyniad Ymwybodol – adolygiad o ddefnyddio anesthesia cyffredinol a dulliau tawelyddu ymwybodol ym maes gofal deintyddol sylfaenol**

27. Cyflwynwyd yr adroddiad o'r adolygiad o ddefnyddio anesthesia ym maes gofal deintyddol sylfaenol ar 21 Gorffennaf 2000. Roedd Prif Swyddog Deintyddol Cymru yn arsyllwr ar y tîm adolygu ac anfonwyd copïau o'r adroddiad llawn at staff allweddol yr NHS. Y prif argymhelliad oedd Cyfyngu Anesthesia Cyffredinol ar gyfer triniaeth ddeintyddol i ysbytai o 31 Rhagfyr 2001 ymlaen, ond gyda chyfnod arwain hir i amharu cyn lleied ag sy'n bosibl ar wasanaethau i'r cleifion. Argymhellodd yr adroddiad fod yr awdurdod iechyd yn mynd ati i arolygu adeiladau.

28. Gwnaed pob deintydd yng Nghymru yn ymwybodol o gynnwys yr adroddiad drwy ddosbarthu'r crynodeb Gweithredol gyda llythyr gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Anfonwyd yr adroddiad llawn at **staff allweddol yr NHS** gyda llythyr a anfonwyd ar y cyd gan **Brif Swyddog Meddygol Cymru/Prif Swyddog Deintyddol Cymru.**

29. Mae swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydweithio â swyddogion o'r Adran Iechyd i sicrhau fod y safonau sy'n berthnasol i Gymru o leiaf gyfuwch â'r rhai a gynigir ar gyfer Lloegr.

30. Mae lleihad eisoes wedi bod yn y lleoliadau sy'n cynnig Anesthesia Cyffredinol yng Nghymru at ddibenion deintyddol, yn dilyn canllawiau newydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ym mis Rhagfyr 1998. Felly, ychydig o gyfleusterau gofal sylfaenol yng Nghymru sy'n dal i gynnig Anesthesia Cyffredinol at ddibenion deintyddol.

**Adolygiad o'r Ddeddf Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd**

**Ymgynghori ar y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth arfaethedig newydd ar gyfer y DU**

31. Un o'r camau cyntaf i'r Adran Iechyd ei gymryd yn dilyn lansio Cynllun Cenedlaethol yr NHS ar gyfer Lloegr oedd cyhoeddi cynigion ar 1 Awst i ddisodli'r Cyngor Canolog ar gyfer y DU a'r pedwar bwrdd cenedlaethol (gan gynnwys Bwrdd Cenedlaethol Cymru) gan Gyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth newydd ar gyfer y DU i gyd. Bydd cyfnod ymgynghori o dri mis.

32. Bwriad y cynnig yw atgyfnerthu'r rheoleiddio proffesiynol drwy gynyddu nifer y bobl lleyg sy'n cymryd rhan er mwyn cydbwyso hyn â'r buddiannau proffesiynol. Bydd pwerau llymach gan y Cyngor newydd i fynd i'r afael ag ymddygiad a pherfformiad proffesiynol gwan a bydd ganddo drefniadau symlach i sicrhau fod pobl yn gymwys i ymarfer eu galwedigaeth.

**Corff newydd i ddisodli Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd (WNB)**

33. Mae’r cyngor ar swyddogaethau’r Bwrdd newydd i Gymru sydd i olynu’r WNB wedi amlygu’r ffaith **na** ellid rhoi’r per i Awdurdod Iechyd Arbennig i gyflwyno’r holl swyddogaethau angenrheidiol ac efallai mai Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad fyddai fwyaf priodol. Mae trafodaethau’n parhau a cheisir cyngor annibynnol pellach i sefydlu sut y gellir gwneud pwerau’r Cynulliad Cenedlaethol yn berthnasol i gyflwyno’r swyddogaethau penodol a fwriedir ar gyfer y corff newydd.

## GWASANAETHAU I BLANT

### Adolygiad o’r Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Plant a Phobl yn eu Harddegau yng Nghymru : Mecanweithiau Diogelwch a Safonau Gofal

34. Ar 7 Medi, cyhoeddais adroddiad dilynol 2000 y Gwasanaeth Ymgynghorol ar Iechyd (HAS) ar fecanweithiau diogelwch a safonau gofal mewn unedau iechyd meddwl preswyl i blant a phobl yn eu harddegau yng Nghymru. Daeth y Tîm Adolygu i’r casgliad fod cryn dipyn o dystiolaeth i ddangos fod pob un o’r asiantaethau a’r unedau priodol wedi gweithio’n galed i weithredu’r argymhellion ers yr adolygiad diwethaf yn 1998. Canlyniad hyn fu mwy o ddiogelwch ar gyfer cleifion mewnol yn eu harddegau sydd â phroblemau iechyd meddwl.

35. Hefyd, rhoddwyd ystyriaeth i’r modd y gellid rhaeadru’r wers a ddysgir yn dilyn adolygiadau HAS 2000 ar draws yr NHS cyfan yng Nghymru a’r modd gorau i weithredu’r argymhellion yn adroddiad Waterhouse. Yn unol â hyn, cyhoeddais fy mhenderfyniad i sefydlu tîm adolygu ar y cyd rhwng y Cynulliad a’r NHS sydd i ddod o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Carlile o Berriew, QC, i ystyried a gwneud argymhellion o fewn 6 mis ar ddiogelu pobl ifanc sydd yn dod o dan gwmpas yr NHS.

## DEDDF SAFONAU GOFAL

36. Cafodd y Ddeddf Safonau Gofal Gydsyniad Brenhinol ar 20 Gorffennaf. Mae’n gosod y sylfeini deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer:

- galluogi’r Cynulliad Cenedlaethol i weithredu fel rheolydd ar gyfer ystod cynhwysfawr o wasanaethau gofal iechyd cymdeithasol ac a ddarperir y tu allan i’r NHS yng Nghymru;
- sefydlu Swyddfa Comisiynydd Plant i Gymru ; ac
- mae’n cynnwys darpariaeth ar gyfer trefniadau newydd i reoleiddio a hyfforddi’r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

37. Yn ei gyfarfod ar 5 Gorffennaf, derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad diweddaraf (HSS-15-00 (p8)) ar y Mesur Safonau Gofal. Amlinellai’r adroddiad fanylion ei brif ddarpariaethau ac arolwg

o’r prif feysydd trafod yn y Senedd.

38. Ac eithrio’r Cydsyniad Brenhinol, yr unig newid sylweddol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor yw fod y darpariaethau sy’n gysylltiedig â Chomisiynydd Plant yn awr wedi’u cynnwys yn y Ddeddf. Darperir mwy o wybodaeth ar y Comisiynydd Plant mewn papur ar wahân i’w nodi (HSS-16-00(p.8)) Disgwylir y bydd y penodiad yn cael ei wneud tua diwedd y flwyddyn.

39. Sefydlir yr Arolygiaeth Safonau Gofal fel rhan o’r Cynulliad o Ebrill 2002 ymlaen. Bydd yn ysgwyddo swyddogaethau’r awdurdodau lleol a’r awdurdodau iechyd o ran rheoleiddio ac arolygu’r gwasanaethau gofal cymdeithasol a bydd yn cymryd ystod o gyfrifoldebau newydd. Sefydlir Cyngor Gofal Cymru ar 1 Hydref 2001 a bydd yn cymryd cyfrifoldebau newydd i reoleiddio a hyfforddi’r gweithlu gofal cymdeithasol.

40. Bydd angen penderfynu ar fanylion y Ddeddf fel y mae’n effeithio ar Gymru drwy raglen sylweddol o is-ddeddfwriaeth o du’r Cynulliad sy’n debygol o barhau tan rywbryd y flwyddyn nesaf. Darperir mwy o gyngor i’r Pwyllgor maes o law. Mae amser wedi’i neilltuo dros dro ar gyfer cyfarfod llawn ar 10 Hydref i alluogi trafodaeth eang ar y Ddeddf a’r rheoliadau y bydd eu hangen i ddod â’r darpariaethau i rym.

**Deddf Cynhalwyr a Phlant Anabl 2000**

41. Derbyniodd hyn hefyd Gydsyniad Brenhinol ar 20 Gorffennaf. Mae’r Ddeddf yn rhoi hawl i ofalwyr yng Nghymru a Lloegr gael eu hasesu gan yr awdurdod lleol o ran eu gallu i barhau i ofalu ac mae’n rhoi’r per i’r awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau i’r gofalwyr hyd yn oed lle y mae’r person y gofalir amdano wedi gwrthod asesiad o’r ddarpariaeth sydd ar gael o ran gwasanaethau gofal cymuned. Hefyd, mae’n rhoi’r per i’r awdurdodau wneud taliadau uniongyrchol i’r gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr 16 a 17 oed) i fodloni eu hangenion eu hunain sydd wedi’u hasesu, i ofalwyr plant anabl ac i bobl 16 a 17 oed sy’n anabl; ac mae’n rhoi per i’r awdurdodau lleol gynnal cynllun talebau ar gyfer toriadau byr-dymor i gynnig hyblygrwydd wrth amseru toriadau’r gofalwyr a’r modd y cyflwynir gwasanaethau.

42. Mae’r Ddeddf yn rhoi per i’r Cynulliad roi cyfarwyddiadau i’r awdurdodau ar y modd y dylent asesu anghenion y gofalwyr a gwneud darpariaethau yn y rheoliadau ar gyfer awdurdodau lleol i ddosbarthu talebau ar gyfer toriadau i ofalwyr ac mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol. Byddaf yn rhoi mwy o gyngor ar y materion hyn i’r Pwyllgor.

**Cynllun Gweithredu Strategaeth y Cynhalwyr yng Nghymru**

43. Lansiais y ddogfen hon yn ffurfiol ar 11 Gorffennaf mewn cyfarfod a fynychwyd gan 80 o gynhalwyr a chynrychiolwyr a sawl cydweithiwr o’r Cynulliad. Anfonwyd copïau at bob Aelod o’r Cynulliad.

44. Rhennir y cynllun yn bum prif bennawd sy’n cofleidio agweddau o waith y Cynulliad sy’n cael effaith arbennig ar fywydau ac anghenion y cynhalwyr. Y meysydd yw : Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwybodaeth, Cymorth, Cynhalwyr Ifanc a Chynhalwyr a Chyflogaeth.

45. Mae’r cynllun hwn yn gam cyntaf wrth fynd i’r afael ag anghenion cynhalwyr yng Nghymru. Byddwn yn ei adolygu’n flynyddol gyda chymorth cynhalwyr a’u sefydliadau. Byddwn yn ffurfio panel cynhalwyr i helpu i fwrw ymlaen â hyn mewn modd cynhwysol sy’n seiliedig ar wybodaeth. Byddaf yn darparu adroddiadau ar gynnydd i’r Pwyllgor.

**DATBLYGIADAU CLINIGOL AC O RAN GWASANAETHAU, gan gynnwys:**

**GWASANAETHAU CANSER**

**Ehangu Rhaglen yr NHS ar gyfer Sgrinio’r Fron**

46. Yn sgîl argymhellion diweddar a ddaeth i law gan y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol sy’n cynghori’r Llywodraeth a’r Cynulliad Cenedlaethol ar ba raglenni sgrinio ddylai fod gan yr NHS, cyhoeddais ar 27 Gorffennaf fy mod yn darparu £1 miliwn o’r flwyddyn nesaf ymIaen i alluogi Bron Brawf Cymru i ddechrau rhoi’r staff a’r offer angenrheidiol yn eu lle i gyflwyno mamograffeg "dau olwg" ar gyfer pob sgriniad a wneir yng Nghymru fel rhan o Raglen yr NHS i Sgrinio’r Fron. Bwriad hyn oedd gwella ymhellach ansawdd y Rhaglen a pha mor ddibynadwy ydyw. Yn ychwanegol, unwaith y byddai hyn wedi’i gyflawni, gofynnais i Fron Brawf Cymru barhau i ddatblygu eu gweithlu gyda mwy o arian a fydd ar gael er mwyn cynyddu ystod oedrannau’r menywod a wahoddir yn awtomatig i gael sgriniad o dan y Rhaglen, sef o 50-64 oed i 50-70 oed.

47. Mae cyflwyno’r ddau newid hwn yn Rhaglen yr NHS ar gyfer Sgrinio’r Fron yn dangos yn glir ymrwymiad y Cynulliad i leihau nifer y menywod sy’n marw o ganser ar y fron yng Nghymru.

**Cyhoeddi Arian Ychwanegol ar gyfer Canser**

48. Cyflwynodd yr Awdurdodau Iechyd gynlluniau gweithredu’n ddiweddar ar gyfer buddsoddiadau yn erbyn yr arian ychwanegol sy’n weddill, sef £25m eleni, o’r adnoddau ychwanegol sylweddol ar gyfer iechyd a gyhoeddwyd yn dilyn cyllideb Canghellor y Trysorlys eleni. Er mwyn cyflawni blaenoriaethau’r Cynulliad a’r NHS o ran iechyd, roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys datblygu gwasanaethau canser.

49. Ar 27 Gorffennaf, cyhoeddais fy nghytundeb iddynt, fel bod £4m ychwanegol yn cael ei ddarparu eleni ar gyfer gwasanaethau canser yng Nghymru. Mae’r awdurdodau iechyd i gytuno â’r Grp Cydlynol ar Wasanaethau Canser yn llawn ar fanylion eu cynlluniau ar gyfer arian ychwanegol, cyn gwneud unrhyw ymrwymiad.

50. Bydd yr arian ychwanegol yma yn cyfrannu'n sylweddol at fodloni'r safonau lleiaf o ofal canser ar gyfer y prif ganserau a gyhoeddwyd gan CSCG.

**Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol**

51. Ar 12 Gorffennaf, cyhoeddais fwy o gamau i sicrhau fod holl gleifion Cymru yn cael gwasanaethau canser o ansawdd uchel mewn modd mwy teg.

52. Rwyf wedi gofyn i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol estyn ei raglen waith bresennol o blaid gofal canser. Rhoddir i'r Sefydliad y gorchwyl o gyflawni rhaglen gynhwysfawr o waith dros y ddwy flynedd nesaf i ddarparu canllawiau ar gyfer clinigwyr a rheolwyr, a gwybodaeth ar gyfer cleifion.

53. Bydd y rhaglen yn sicrhau fod canllawiau clir ar drefnu gwasanaethau canser, yn seiliedig ar safonau lleiaf o ofal, a bod cleifion a'u teuluoedd sy'n byw gyda'r clefyd yn medru cael cyffuriau canser newydd yn hwylus.

54. Mae'r rhaglen waith yn cynnwys cadarnhau argymhellion i arfarnu nifer o gyffuriau trwyddedig diweddar, gan gynnwys temozolamide ar gyfer tyfiannau ar yr ymennydd, paclitaxel and docetaxol ar gyfer canser ar yr ysgyfaint, trastuzumab ar gyfer canser ar y fron, ac irinotecan ac oxaliplatin ar gyfer canser colorefrol.

55. Yn ychwanegol, bydd y rhaglen ddwy flynedd yn comisiynu mwy o ganllawiau ar y modd gorau i drefnu'n glinigol wroleg, canserau ar y gwaed, a'r pen a'r gwddf, adolygu a diweddaru'r canllawiau presennol ar wasanaethau ar gyfer canser ar y fron, y perfedd a'r ysgyfaint, a llunio canllawiau pellach ar gymorth, megis gwybodaeth a chyngor ar ganser ar gyfer cleifion, perthnasau a chynhalwyr.

56. Bydd y gwaith hwn yn cymryd i ystyriaeth y safonau lleiaf o ofal ar gyfer Cymru gyfan, sydd eisoes yn eu lle ar gyfer gwasanaethau canser.

57. Argymhellodd canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol ar ddefnyddio Sytoleg sy'n Seiledig ar Hylif raglen o brosiectau gweithredu peilot sy'n gysylltiedig â Sytoleg sy'n Seiliedig ar Hylif ar gyfer ymgymryd â sgriniadau o geg y groth, ynghyd ag adolygiad llawn o'r canlyniadau bob cam o'r ffordd. Mae Lloegr yn cynnal yr astudiaethau peilot ac rwyf wedi cytuno y lleolir un o'r safleoedd peilot yng Nghymru o dan gyfarwyddyd Ymddiriedolaeth NHS Felindre a fydd yn arolygu'r cynllun peilot yng Nghymru.

**FFRAMWAITH Y GWASANAETH IECHYD AR GLEFYD CORONAIDD Y GALON**

**Gwaith ar y Gweill**

58. Ym mis Medi 1999, rhyddhaodd yr Adran Iechyd adroddiad a oedd yn cynnwys darganfyddiadau a ddeilliodd o waith a wnaed i ddatblygu Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol ar Glefyd Coronaidd y Galon. Comisiynwyd Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru gan y Cynulliad i arwain y gwaith gweithredu ar Glefyd Coronaidd y Galon yng Nghymru.

59. Sefydlwyd Grp Llywio i weithredu yng Nghymru y safonau a gynhwysir yn y Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r NHS yng Nghymru sy'n darparu gofal ar gyfer clefyd coronaidd y galon ac mae arno gynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r grp hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr ar ran y cleifion o Gymdeithas Cleifion Clefyd y Galon Prydain a'r Cynghorau Iechyd Cymuned.

60. Mae'r gwaith bron yn gyflawn ar adolygu'r gwasanaethau sydd yn y Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol. Cyfarfu'r Grp Llywio a rhanddeiliaid allweddol eraill mewn gweithdy deuddydd ym mis Awst gyda'r nod o roi'r gwaith hwn wrth ei gilydd. Gofynnwyd i ddirprwyon y gweithdy ystyried y safonau a glustnodir yn y Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol ac i ddatblygu cerrig milltir sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y safonau hyn yng Nghymru. Mae'r cynllun gweithredu'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd o ganlyniad i'r gweithdy ac fe'i cynllunnir i ateb anghenion cleifion Cymru gyda'r nod o wella gwasanaethau ar y galon dros y deng mlynedd nesaf.

61. Mae'r cynllun gweithredu i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 25 Hydref 2000. Unwaith y bydd wedi'i gytuno gan y Cynulliad, cyhoeddir Cynllun Gweithredu Clefyd Coronaidd y Galon ac fe'i dosberthir yn eang i bob sefydliad ac unigolyn allweddol.

**Cyhoeddi Arian Ychwanegol ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon**

62. Yn ddiweddar, cyflwynodd yr Awdurdodau Iechyd gynlluniau gweithredu ar gyfer buddsoddiadau yn erbyn yr arian ychwanegol sy'n weddill, sef £25m eleni, o'r adnoddau ychwanegol sylweddol ar gyfer iechyd a gyhoeddwyd yn dilyn cyllideb Canghellor y Trysorlys eleni. Er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cynulliad a'r NHS o ran iechyd, roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys datblygu gwasanaethau ar gyfer clefyd coronaidd y galon.

63. Ar 27 Gorffennaf, cyhoeddais fy nghytundeb iddynt, fel bod £3.3m ychwanegol yn cael eu darparu eleni ar gyfer gwasanaethau clefyd coronaidd y galon yng Nghymru. Mae'r awdurdodau iechyd i gytuno manylion eu cynlluniau ar gyfer yr arian ychwanegol gyda Chomisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, cyn gwneud unrhyw ymrwymiad.

**CYNNAL A DATBLYGU GALLU'R SECTOR GWIRFODDOL**

**Cynllun y Sector Gwirfoddol**

64. Mabwysiadwyd Cynllun y Sector Gwirfoddol mewn cyfarfod llawn ar 5 Gorffennaf 2000. Mae'r ddogfen ar gael ar y fewnrwyd ac fe'i dosberthir yn fuan ar bapur. Bydd cynllun gweithredu drafft yn cael ei ystyried yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol ym mis Hydref. Yn y cyfamser, mae'r cyfarfodydd cyntaf rhwng Ysgrifenyddion y Cynulliad a rhwydweithiau perthnasol y sector gwirfoddol (sy'n ofynnol o dan y cynllun) yn cael eu cynnal. Dylai adroddiadau'r cyfarfodydd hynny fod ar gael i'r Pwyllgorau'n fuan a bydd dyletswydd ar y Pwyllgorau i drafod yr adroddiadau o leiaf yn flynyddol.

**Adolygiad o'r Gwasanaethau Mabwysiadu**

65. Mae adroddiad Adolygiad y Prif Weinidog o'r Gwasanaethau Mabwysiadu wedi'i ddosbarthu fel dogfen ymgynghorol yng Nghymru a Lloegr; gwahoddwyd safbwyntiau'r awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol lleol a'r sefydliadau gwirfoddol perthnasol erbyn 31 Hydref. Bwriedir adrodd canlyniad yr ymgynghoriad hwn wrth y Pwyllgor ym mis Tachwedd i geisio safbwyntiau'r Pwyllgor ar y materion a godwyd gan yr adroddiad a mynegi'r rheini i'r Llywodraeth.

## CYLLIDO

**Diweddariad ar y Sefyllfa Ariannol**

66. Mae gan yr NHS warged net o £6 miliwn yn y flwyddyn ar hyn o bryd, ond mae sefydliadau unigol o hyd o fewn y pennawd hwn sydd ag anawsterau ariannol dirfawr. Mae'r sefydliadau hyn yn symud ymlaen yn dda yn y broses o ddatblygu a gweithredu eu cynlluniau adfer er mwyn cyrraedd sefyllfa o gydbwysedd ariannol eto yn y tymor canolig.

67. Mae llawer o'r gwarged a nodwyd yn cyfeirio at ymrwymiadau sy'n bodoli eisoes y bydd yn rhaid eu bodloni'r flwyddyn nesaf. Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n agos a gofynnwyd i awdurdodau iechyd ystyried defnyddio'r arian hwn i foderneiddio cyfarpar a phrosiectau cyfalaf bychain eraill yn unol â blaenoriaethau'r Pwyllgor.

68. Mae'r alldro arian a ragwelir ar gyfer eleni, yn seiliedig ar fis Gorffennaf 2000, yn danwariant o £6 miliwn ar hyn o bryd (0.2% o'r gyllideb). Mae hyn yn cyfeirio at lunio proffil o wariant cyfalaf a disgwyliwyd hyn ddechrau'r flwyddyn ariannol. Bydd angen cario'r tanwariant hwn ymlaen i fodloni'r ymrwymiadau cyfalaf a fydd yn ddyledus yn 2001-02.

**Cynllun Hyfforddi Meddygon Teulu – Hyfforddiant Galwedigaethol ar gyfer Meddygon Teulu**

69. Bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi fod yr Ysgrifennydd Cyllid wedi cymeradwyo trosglwyddo

£3.1 miliwn rhwng Llinell Gwariant Cyllideb Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Llinell Gwariant Cyllideb Addysg a Hyfforddiant o ran y Cynllun Hyfforddi Meddygon Teulu – Hyfforddiant Galwedigaethol ar gyfer Meddygon Teulu. Mae hyn i adlewyrchu'r trefniadau newydd ar gyfer rheoli a chyflwyno hyfforddiant galwedigaethol i feddygon teulu a ddaeth i rym ar 1 Awst 2000.

## MATERION O DDIDDORDEB

**<u>CYNNWYS</u>** | **Rhifau'r Paragraffau**


| CYNNWYS | Rhifau'r Paragraffau |
|---|---|
| **GWELLA IECHYD A THRECHU ANGHYDRADDOLDEB** | |
| Data llinell sylfaenol a rhesymeg dros y gyfres Mynegeion Perfformiad Cenedlaethol | 1 |
| Asiantaeth Safonau Bwyd | 2 |
| Penodi Ymgynghorwyr Cydraddoldeb Hiliol | 3-5 |
| **GWASANAETHAU I BLANT** | |
| Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol | 6 |
| **TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU** | |
| Materion TG a Ch a'u hynt | 7-13 |


## GWELLA IECHYD A THRECHU ANGHYDRADDOLDEB

**Data llinell sylfaenol a rhesymeg dros y gyfres Mynegeion Perfformiad Cenedlaethol**

1. Dosbarthwyd y data llinell sylfaenol ar gyfer y gyfres Mynegeion Perfformiad Cenedlaethol i NHS Cymru ym mis Gorffennaf 2000. Mae'r gyfres Mynegeion Perfformiad Cenedlaethol yn ddarn allweddol o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a lansiwyd ym mis Mawrth 2000. Y cam nesaf yn y broses hon fydd dadansoddiad mwy manwl o'r data i amlygu amrywiadau o ran perfformiad ar lefel yr Awdurdodau Iechyd a'r Grwpiau Iechyd Lleol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer datblygu Rhaglenni Gwella Iechyd.

**Asiantaeth Safonau Bwyd**

2. Yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a gynhaliwyd ar 24-27 Gorffennaf, arddangosodd Gweithrediaeth Cymru o'r Asiantaeth Safonau Bwyd stondin a oedd yn dangos cegin ryngweithiol a hyrwyddai ddiogelwch bwyd a maeth. Hefyd, cynhaliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd fforwm agored yn y sioe gyda phanel o arbenigwyr a oedd yn cynnwys Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru a minnau a edrychodd ar y themâu allweddol o faeth, diogelwch bwyd a glendid.

**Penodi Ymgynghorwyr Cydraddoldeb Hiliol**

3. Rhoddwyd hwb arbennig i'r angen am drechu anghydraddoldeb ym maes iechyd a bwrw ymlaen â meysydd allweddol o waith ar anghydraddoldeb yn NHS Cymru drwy gyhoeddi a lansio *Darparu ar gyfer Cleifion* sy'n gosod fel ei amcan yr angen i gynyddu dealltwriaeth o anghydraddoldeb a hawliau dynol yn yr Ymddiriedolaethau a'r Awdurdodau Iechyd.

4. Yn dilyn ymgynghori â Fforwm Cydraddoldeb yr NHS yng Nghymru a Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ariannu dau Ymgynghorydd Cydraddoldeb Hiliol o fewn NHS Cymru. Cyflogir yr Ymgynghorwyr o fewn Awdurdod Iechyd Bro Taf ac fe'u lleolir yng Nghaerdydd, ond mae cylch gwaith gan bob un ar gyfer Cymru gyfan o ran eu cyfrifoldebau ym maes gofal sylfaenol ac eilaidd.

5. Bydd yr ymgynghorwyr yn archwilio materion sy'n ymwneud â pha mor hwylus ydyw i gael y gwasanaeth a'r modd y mae'n cael ei gyflwyno, yn ogystal â mynd i'r afael â monitro ethnig a gwaith i leiafrifoedd ethnig a phobl dduon. Mae'r Ymgynghorwyr, Dee Hines-Johnson a Michael Banner, yn awr yn eu swyddi a chefais y pleser o gyfarfod â hwy ar 2 Awst. *Efallai y bydd aelodau'r Pwyllgor yn ei hystyried yn ddefnyddiol clywed gan Dee a Michael rywbryd yn y dyfodol am y gwaith y maent yn ei wneud yn y sectorau gofal sylfaenol ac eilaidd.*

**GWASANAETHAU I BLANT**

**Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol**

6. Ddydd Iau 22 Mehefin, bûm yn cadeirio pedwerydd cyfarfod, sef cyfarfod olaf Cyngor "Cysgod" Partneriaeth y Sector Gwirfoddol. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys

Cynllun y Sector Gwirfoddol (yn dilyn ymgynghori â'r cyhoedd); y Rheolau Sefydlog a phrotocol busnes ar gyfer Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol a fydd yn cynnal ei gyfarfod ffurfiol cyntaf ar 13 Hydref, Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, Adolygiad Strategol o Ariannu'r Sector Gwirfoddol a'r Cynllun Gwarantu Arian Pontio mewn perthynas ag arian Ewropeaidd.

**TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU**

7. **Materion TG a Ch a'u hynt**

- Mae'r gwaith yn parhau ar weithredu Gwell Gwybodaeth Gwell Iechyd gyda rhaglenni o weithgareddau cyfochrog y mae'r NHS yn ymgymryd â hwy yng Nghymru; mae Cynlluniau Gweithredu Lleol sy'n clustnodi gweithgareddau'r NHS yn cael eu crynhoi at ei gilydd.

8. **Adolygiadau Strategaeth**

- Mae adroddiad olaf yr adolygiad Cyllid i'w gyflwyno i'r HIMB ar 20 Tachwedd 2000.
- Mae'r adolygiad Staffio bron â'i gwblhau. Bydd yr adroddiad terfynol ar gael ar CymruWeb cyn gynted ag y bydd y dull o arfarnu opsiynau wedi'i gwblhau.

9. **TG a Seilwaith**

- Mae adolygiad Telegyfathrebu 2000 yn mynd yn ei flaen. Bydd NHS Cymru yn buddsoddi mewn system Gwasanaethau Cyfeirlyfr a fydd yn cynnig cyfleusterau llyfrau cyfeiriadau e-bost yn lleol ac ar gyfer Cymru gyfan. Mae'n ystyried yn awr y technolegau y bydd eu hangen hyd at y flwyddyn 2005.

10. **Rhaglen Safonau ac Ansawdd Gwybodaeth**

- Mae'r rhaglen yn cynnwys dwy brif fenter; adolygiad o'r llif wybodaeth a chydymffurfiaeth â'r safonau cenedlaethol a gytunwyd; rhaglen achredu ar gyfer rheoli data a chofnodion iechyd; disgwylir i'r adolygiad gael ei gwblhau erbyn 31/3/2001. Mae disgwyl i ran gyntaf y rhaglen gael ei chwblhau erbyn 31/12/2000.

- Dylid cwblhau Achrediad y Cofnodion Iechyd erbyn 31/3/2001. Trafodir ar hyn o bryd y modd o gynyddu atebolrwydd sefydliadau'r NHS o ran ansawdd y wybodaeth y mae'n ei darparu.

11. **Gwasanaethau Gwybodaeth Iechyd Corfforaethol**

- Mae'r ymgynghorwyr allanol yn paratoi adroddiad terfynol ar yr opsiynau i ddatblygu'r

gwasanaeth HOWIS; datblygir y porth HOWIS ar gyfer ei lansio ym mis Hydref 2000. Bydd Tasglu Gweithredu Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd yn bwrw ymlaen â'r argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad ar Adolygu'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd.

12. **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ar Ofal Sylfaenol**

- Mae enwebiadau wedi'u derbyn yn awr ar gyfer bod yn aelodau o'r Bwrdd Prosiect Gwasanaethau. Trefnir cyfarfod cyntaf y Bwrdd prosiect ar hyn o bryd.
- Mae disgwyl o hyd am gadarnhad o'r arian ar gyfer y prosiect yn yr ail a'r drydedd flwyddyn. Unwaith y bydd hyn ar gael, gellir hysbysebu swydd y Rheolwr Prosiect ar gyfer Cymru Gyfan.

13. **Telefeddygaeth a Theleofal**

Bydd y cyhoeddiad ynghylch ariannu yn galluogi ymgymryd â Rhaglen Datblygu Telefeddygaeth a Theleofal dwy flynedd o hyd a fydd mewn dwy ran :

- Lleiafswm o ddau beilot ar raddfa weithredol.
- Rhwydwaith cenedlaethol o gyfleusterau fideogynadledda a fydd yn cwmpasu 45-50 o safleoedd a fydd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith.